Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC30: Adroddiad ynghylch y galw am safleoedd rhandiroedd a'r cyflenwad

Cynllun i'w archwilio

gan y cyhoedd

Gorffennaf 2019

**This document is also available in English.**

Mae’r ddogfen hon ar gael i’w gweld a’i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i’w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â’r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw’n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o’r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a
Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau’r drwydded hon i’r Arolwg Ordnans.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

# Cynnwys

1 Cyflwyniad 4
2 Canllawiau a Pholisi Cynllunio Cenedlaethol 4
3 Safonau Rhandiroedd 5
4 Darpariaeth rhandir presennol 7
5 Ardaloedd y galw 8
6 Dyraniadau'r CDLl Newydd 10
7 Cyfraniadau datblygwr 10
8 Casgliad 10
Atodiad 1: Mapiau o randiroedd unigol a gerddi cymunedol 12

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae hwn yn un o gyfres o Bapurau Cefndir sydd yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN). Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, mae'n rhaid iddo hefyd egluro sut mae'r polisi wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd.

1.2 Pwrpas y papur cefndir hwn yw:

- amlinellu safon y Cyngor ar gyfer darparu rhandiroedd,
- amlinellu'r lefel bresennol o randiroedd,
- nodi'r ardaloedd lle mae'r galw mwyaf am randiroedd,
- rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd safleoedd dynodedig yng Nghynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022,
- asesu'r gofyniad am safleoedd newydd; a
- nodi'r mecanwaith i'r dyfodol o ran sicrhau cyfraniadau gan ddatblygwyr.

## 2 Canllawiau a Pholisi Cynllunio Cenedlaethol

2.1 Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu rhandiroedd dan Ddeddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908. Mae awdurdodau lleol dan rwymedigaeth i ddarparu digon o blotiau i breswylwyr lle credant fod galw am randiroedd. Mae Deddf Rhandiroedd 1925 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgeisio am ganiatâd Llywodraeth Cymru pe baent yn dewis gwaredu rhandir statudol.

2.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC - Rhifyn 12) (2024) wedi'i adolygu er mwyn iddo gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae PCC wedi'i rannu'n bedair thema amlwg, sy'n dod â gofynion y Ddeddf i gyd-destun ar gyfer y polisi cynllunio ac yn dangos y rhyng-gysylltiadau rhwng polisïau cynllunio. Mae rhandiroedd wedi'u cynnwys fel cyfleuster cymunedol, sy'n dod o dan y thema Lleoedd Egnïol a Chymdeithasol.

2.3 Mae PCC yn nodi fod cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys rhandiroedd, yn cyfrannu tuag at ymdeimlad o le, sy'n bwysig ar gyfer iechyd, lles ac amwynder. Maent yn elfennau allweddol o lefydd hyfyw a chynaliadwy.

2.4 Mae paragraff 4.4.2 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio ddatblygu dull strategol a hirdymor ar gyfer darparu cyfleusterau cymunedol wrth baratoi eu CDLl. Dylid ystyried anghenion y gymuned, a dylid sicrhau bod cyfleusterau cymunedol yn parhau i fynd i'r afael ag anghenion preswylwyr lleol.

2.5 Mae PCC yn nodi fod buddion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd ac iechyd ynghlwm â rhandiroedd ac ardaloedd tyfu cymunedol. Gallant gyfrannu at hunaniaeth, ymdeimlad o gymuned ac adfywio mannau agored. Dylid cadw a diogelu rhandiroedd presennol, yn enwedig os ydynt yn rhan bwysig o'r seilwaith gwyrdd neu os oes ganddynt werth cymunedol. Mae gan randiroedd statudol amddiffyniad cyfreithiol. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu tir ar gyfer rhandiroedd i fodloni'r galw a nodir yn lleol. Dylai cynlluniau datblygu gynnwys dyraniadau ar gyfer unrhyw randir ychwanegol neu leoliad twf cymunedol sydd ei angen.

2.6 Mae Nodyn Cyngor Technegol 16 (2009) yn rhoi cyngor ar fannau agored. Mae rhandiroedd wedi'u cynnwys fel teipoleg yn y diffiniadau. Mae gerddi cymunedol a ffermydd trefol hefyd wedi'u cynnwys yn yr un deipoleg. Fe'u hystyrir fel mannau gwyrdd pwysig sy'n gallu cyfrannu tuag at gynaliadwyedd, darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden, ymarfer corff, bwyd iach, gwella bioamrywiaeth ac annog rhyngweithio rhwng aelodau o'r gymuned. Dylai pob safle gynnwys elfen o fywyd gwyllt.

2.7 Dylid gwarchod, hybu a rheoli rhandiroedd statudol (rhandiroedd ag arwynebau llai na 1,000 metr sgwâr) yn briodol a dylai'r rhandiroedd hyn fodloni'r galw lleol am randiroedd. Lle cynigir eu datblygu at ddibenion eraill, dylid lliniaru'r golled gyda safle amgen newydd. Wrth ystyried ceisiadau ar gyfer gwaredu, ni all Gweinidogion Cymru gymryd manteision y datblygiad arfaethedig i ystyriaeth. P'un a ellir bodloni'r galw am randiroedd yn yr ardal honno yw'r pryder.

2.8 Dylai polisïau CDLl fynd i'r afael â'r angen i ddarparu a diogelu rhandiroedd / safleoedd compost / bywyd gwyllt lle nodir diffyg a gwella hygyrchedd y safleoedd hyn i bob defnyddiwr.

## 3 Safonau Rhandiroedd

3.1 Nid oes safonau ar gyfer darparu rhandiroedd yn y Ddeddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 na'r polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. Defnyddir Adroddiad Thorpe 1969 o 15 plot fesul 1,000 o aelwydydd yn eang iawn. Oherwydd colled rhandiroedd, mae'r Gymdeithas Genedlaethol Rhandiroedd yn argymell isafswm o 20 plot fesul 1,000 o aelwydydd. Nid oes maint penodol wedi'i nodi ar gyfer rhandir. Mae'r plot cyfartalog yn $250m^2$. Byddai hyn yn rhoi safon o 0.5 ha fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae Cymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Rhandiroedd a Hamdden, 'Tyfu yn y Gymuned', yn argymell 0.2 hectar o randiroedd fesul 1,000 o'r boblogaeth.

3.2 Nid yw safonau'r ddarpariaeth wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru nac ychwaith yn NCT 16, dylid diffinio'r rhain yn lleol er mwyn diwallu'r angen a nodwyd. Mae'r NCT yn cyfeirio at safonau a awgrymir gan Feysydd Chwarae Cymru ar gyfer mathau eraill o fannau agored. Diweddarodd Meysydd Chwarae Cymru ei safonau meincnod yn 2015, a daeth yn amlwg mai'r canolrif o ran darpariaeth ar gyfer rhandiroedd, gerddi cymunedol a ffermydd trefol yng Nghymru oedd 0.3 hectarau fesul 1,000 o'r boblogaeth.

3.3 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu maint plot safonol o 9x4m$^2$, sy'n 36m$^2$. Ystyrir bod hyn yn adlewyrchu anghenion preswylwyr Conwy'n well.

3.4 Mae CDLl Mabwysiedig Conwy wedi nodi safon ar gyfer rhandiroedd a oedd yn adlewyrchu'r angen lleol ar y pryd (2012). Polisi'r Cyngor yw caniatáu un plot rhandir fesul aelwyd. I osgoi'r potensial o gyfri ddwywaith, gosodwyd y safon ar y sail hon, ac nid fesul poblogaeth. Fe'i cyfrifwyd fel 1.35m$^2$ fesul annedd, sy'n gyfystyr ag oddeutu 0.3 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth. Cynigir defnyddio'r un fethodoleg, ond gan ddiweddaru'r ffigurau ar gyfer y CDLlN.

3.5 Mae 347 o blotiau rhandir ar hyn o bryd a 202 o bobl ar y rhestr aros. Mae'r galw gwirioneddol am randir yn debygol o fod yn uwch, gan na fydd rhai pobl wedi rhoi eu henw ar y rhestr aros os nad oes rhandir yn agos atynt.

**Tabl 1: Y galw am randiroedd ym Mwrdeistref Sirol Conwy**

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Stoc Anheddau, Llywodraeth Cymru: Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, Polisi Cynllunio Strategol; a'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y glaw am randiroedd (plotiau)** | **549** |
| Nifer y plotiau rhandir | 347 |
| Nifer ar y rhestr aros | 202 |
| **Amcangyfrif o nifer yr anheddau presennol (Tachwedd 2023)** | **58,030** |
| **Amcangyfrif o'r galw presennol am randiroedd (plotiau fesul annedd)** | **0.009** |

3.6 Mae'r tabl uchod yn amcangyfrif y nifer cyfartalog o blotiau rhandir fesul annedd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Gellir defnyddio'r ffigwr hwn i amcangyfrif y galw tebygol am blotiau rhandir yn deillio o'r anheddau newydd a gynigir yn y CDLlN. Mae'r tabl isod yn dangos nifer tebygol y plotiau rhandir newydd sydd eu hangen i fodloni'r angen presennol a'r cynnydd a amcangyfrifir o'r twf a gynigir yn y CDLlN.

**Tabl 2: Galw am randiroedd ym Mwrdeistref Sirol Conwy**

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| Nifer yr anheddau newydd a gynigir | Amcangyfrif o'r plotiau rhandir sydd eu hangen i fodloni'r galw newydd | Nifer y plotiau newydd gofynnol (can gynnwys rhestr aros gyfredol) | Cyfanswm y galw am randiroedd |
|---|---|---|---|
| 3,600 | 32 | 234 | 609 |

## 4 Darpariaeth rhandir presennol

4.1 Mae 17 o safleoedd rhandir ac un berllan gymunedol yn y Fwrdeistref Sirol Nid y Cyngor sy'n berchen ar bob un o'r rhain. Mae mapiau manwl a niferoedd plotiau ar gyfer pob safle yn Atodiad 1.

**Tabl 3: Darpariaeth rhandiroedd ym Mwrdeistref Sirol Conwy**

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| Safle'r rhandir | Anheddiad | Nifer y plotiau | Nifer yr eiddo gwag | Maint y safle ($m^2$) |
|---|---|---|---|---|
| Towyn Way West | Towyn/Bae Cinmel | 19 | 5 | 1,765 |
| Ffordd y Graig | Hen Golwyn | 13 | 3 | 1,370 |
| Bodlondeb | Conwy | 31 | 0 | 2,520 |
| Bodelwyddan Avenue | Hen Golwyn | Anhysbys | | 955 |
| St George's Drive | Cyffordd Llandudno | 26 | 7 | 2,685 |
| Bron y Nant, Ffordd Dinerth | Llandrillo-yn-Rhos | 70 | 8 | 7,735 |
| Bryn Euryn, Ffordd Tan y Bryn | Llandrillo-yn-Rhos | 85 | 13 | 6,245 |
| Ffordd Conwy | Llandudno | Anhysbys | | 200 |
| West Shore | Llanfairfechan | 65 | 7 | 9,880 |
| St David's Road | Penmaenmawr | 4 | 0 | 1,325 |
| Rock Villa Road | Penmaenmawr | 8 | 0 | 450 |
| Gwel y Môr | Dwygyfylchi | 4 | | 305 |
| Ffordd Glan y Môr | Bae Penrhyn | 2 | 0 | 545 |
| Cwm Howard | Llandudno | Anhysbys | | 15,580 |
| Ffordd Wellington | Hen Golwyn | 4 | 0 | 255 |
| Clwb y Lleng Prydeinig | Bae Colwyn | Anhysbys | | 1,090 |
| Tŷ Newydd, yr Hen Briffordd | Bae Colwyn | 20 | 5 | 5,355 |
| Perllan gymunedol | Conwy | Amherthnasol | | 6,955 |

## 5 Ardaloedd y galw

5.1 Mae'r tabl isod yn dangos ble mae'r preswylwyr sydd ar y rhestr aros ar gyfer plot rhandir yn byw ar hyn o bryd. Mae'n dangos bod galw yn y mwyafrif o aneddiadau ar hyd yr arfordir, a galw tebyg mewn ardaloedd gwledig. Mae'r galw gwirioneddol yn debygol o fod yn uwch, gan na fydd pob preswylydd wedi rhoi eu henw ar restr aros gan nad oes darpariaeth yn eu hardal ar hyn o bryd.

**Tabl 4: Rhestrau aros presennol**

Ffynhonnell: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 2025


| Anheddiad | Nifer ar y rhestr | Anheddiad | Nifer ar y rhestr |
|---|---|---|---|
| **Y Creuddyn** | | **Y Gorllewin** | |
| Conwy | 53 | Llanfairfechan | 9 |
| Deganwy | 30 | Penmaenmawr | 21 |
| Cyffordd Llandudno | 11 | Dwygyfylchi | - |
| Llandudno | 27 | **Y Dwyrain** | |
| Bae Penrhyn | 6 | Abergele | 26 |
| **Y Canol** | | Towyn | 3 |
| Llandrillo-yn-Rhos | 37 | **Gwledig** | |
| Bae Colwyn | 7 | Llanrwst | 7 |
| Hen Golwyn | 28 | Trefriw | 20 |
| Mochdre | - | Gwledig arall | 17 |

5.2 Polisi'r Cyngor yw dyrannu rhandir o fewn tair milltir o gartref yr ymgeisydd. Mae lleoliadau'r rhandiroedd presennol yn golygu nad yw hyn bob amser yn bosibl. Mae'r map isod yn dangos bod bylchau yn y ddarpariaeth. Nid oes rhandiroedd yn yr ardaloedd gwledig, ac mae bwlch bychan yn Abergele. Bydd rhandiroedd newydd yn cael eu lleoli i fodloni ardaloedd y galw.

5.3 Dylid nodi y bydd y tabl uchod o bosibl yn dangos rhywfaint o ddyblygu neu driphlygu o ran niferoedd ar y rhestrau aros gan y bydd rhai pobl yn nodi eu henw ar gyfer sawl safle.

## Map 1: Lleoliad safleoedd rhandir ac ymgeiswyr ar y rhestr aros

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol a’r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



## 6 Dyraniadau'r CDLI Newydd

6.1 Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu tir ar gyfer rhandiroedd i fodloni'r galw a nodir yn lleol. Mae PCC yn nodi y dylid dyrannu tir ar gyfer rhandiroedd a gellir nodi rhai safleoedd dynodedig y CDLIN i fodloni unrhyw alw lleol, yn amodol ar hyfywedd y safle a chyflwr y tir.

6.2 Mae'n bosibl y bydd rhandiroedd pellach ar gael yn ystod cyfnod y CDLIN, yn amodol ar yr angen a nodwyd ac ystyriaethau hyfywedd. Bydd addasrwydd y safleoedd hyn yn cael eu hasesu ar y pryd. Mae'n rhaid i'r safleoedd fod yn hygyrch i bawb, gyda chyflwr tir priodol ar gyfer defnyddio rhandiroedd.

## 7 Cyfraniadau datblygwr

7.1 Amlinellir y sail polisi manwl a'r cyfiawnhad ar gyfer ceisio darpariaeth neu gyfraniadau datblygwyr o ran rhandiroedd yn:

1. Y canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol -
   - a Polisi Cynllunio Cymru
   - b TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored
2. Polisïau CDLIN Conwy a'r canllawiau cynllunio atodol

7.2 Mae'n bosibl y bydd gofyn i bob datblygiad preswyl gyfrannu tuag at y ddarpariaeth rhandir, lle nad yw'r ddarpariaeth gyfredol yn bodloni'r galw a amcangyfrifir sy'n deillio o'r datblygiad arfaethedig. Mae hyn yn amodol ar hyfywedd y safle.

7.3 Mae'n bosibl y ceisir cyfraniad fesul annedd ar gyfer datblygiadau lle nad oes darpariaeth ar y safle ar gyfer rhandiroedd. Gellir dod o hyd i'r dull ar gyfer cyfrifo cyfraniadau tuag at randiroedd yn CCA Rhwymedigaethau Cynllunio'r CDLIN.

## 8 Casgliad


8.1 Mae rhannau o'r Fwrdeistref Sirol heb unrhyw ddarpariaeth rhandir. Mae preswylwyr ar y rhestr aros ar gyfer yr ardaloedd hyn. Mae galw hefyd ar hyd yr arfordir, lle nad yw lefel bresennol y ddarpariaeth rhandir yn bodloni'r angen. Mae'n bosibl y caiff safleoedd eu dyrannu, lle bo modd, i fodloni'r angen a nodwyd.

8.2 Caiff tai newydd a gaiff eu hadeiladu a'r cynnydd cysylltiedig yn y glaw am randiroedd eu hystyried hefyd, i sicrhau bod unrhyw angen newydd sy'n codi'n cael ei fodloni.

## Atodiad 1: Mapiau o randiroedd unigol a gerddi cymunedol

### West Shore, Llanfairfechan


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal** | 9,880m$^2$ |
| **Ward:** | Bryn |
| **Cyngor Cymuned:** | Llanfairfechan |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | 65 |
| **Nifer y plotiau gwag:** | 7 (dan gynnig ar hyn o bryd) |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | 0 (hygyrch i gadair olwyn mewn rhannau) |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | 9 |

## St David's Road, Penmaenmawr


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 1,325m$^2$ |
| **Ward:** | Pant yr Afon/Penmaenan |
| **Cyngor Cymuned:** | Penmaenmawr |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | 7 |
| **Nifer y plotiau gwag:** | 0 |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | 0 |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | 12 |

## Rock Villa Road, Penmaenmawr


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 450m$^2$ |
| **Ward:** | Pant yr Afon/Penmaenan |
| **Cyngor Cymuned:** | Penmaenmawr |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | 8 |
| **Nifer y plotiau gwag:** | 0 |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | 0 (hygyrch i gadair olwyn mewn rhannau) |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | 9 |

## Gwel y Môr, Dwygyfylchi


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 305m$^2$ |
| **Ward:** | Capelulo |
| **Cyngor Cymuned:** | Penmaenmawr |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | Preifat (wedi'i reoli gan CBSC) |
| **Cyfanswm y plotiau:** | Amherthnasol - i'w ddefnyddio gan grŵp cymunedol fel un safle |
| **Nifer y plotiau gwag:** | |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | Amherthnasol |

### Bodlondeb, Conwy


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 2,520m$^2$ |
| **Ward:** | Conwy |
| **Cyngor Cymuned:** | Conwy |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | 31 |
| **Nifer y plotiau gwag:** | 0 |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | 0 |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | 53 |

## Perllan Gymunedol, Conwy


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 6,955m$^2$ |
| **Ward:** | Conwy |
| **Cyngor Cymuned:** | Conwy |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| **Cyfanswm y plotiau:** | Amherthnasol |
| **Nifer y plotiau gwag:** | Amherthnasol |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | Amherthnasol |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | Amherthnasol |

## St George’s Drive, Cyffordd Llandudno


Ffynhonnell:  Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 2,685m$^2$ |
| **Ward:** | Marl |
| **Cyngor Cymuned:** | Conwy |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | 26 |
| **Nifer y plotiau gwag:** | 7 |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | 0 |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | 30 |

## Ffordd Conwy, Llandudno


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 200m$^2$ |
| **Ward:** | Tudno |
| **Cyngor Cymuned:** | Llandudno |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | Anhysbys |
| **Nifer y plotiau gwag:** | Anhysbys |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | Anhysbys |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | Anhysbys |

## Cwm Howard, Llandudno

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 15,580$m^2$ |
| **Ward:** | Tudno |
| **Cyngor Cymuned:** | Llandudno |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC (dan reolaeth breifat) |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | Anhysbys |
| **Nifer y plotiau gwag:** | Anhysbys |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | Anhysbys |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | 1 |

## Ffordd Glan y Môr, Bae Penrhyn


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 545m$^2$ |
| **Ward:** | Penrhyn |
| **Cyngor Cymuned:** | Llandudno |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | 2 |
| **Nifer y plotiau gwag:** | 0 |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | 0 |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | 14 |

## Bron-y-Nant, Dinerth Road, Llandrillo yn Rhos


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 7,735m$^2$ |
| **Ward:** | Llandrillo-yn-Rhos |
| **Cyngor Cymuned:** | Llandrillo-yn-Rhos |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| **Cyfanswm y plotiau:** | 70 |
| **Nifer y plotiau gwag:** | 8 (dan gynnig ar hyn o bryd) |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | 0 |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | 14 |

## Bryn Euryn, Ffordd Tan-y-Bryn, Llandrillo-yn-Rhos

Ffynhonnell:  Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 6,245$m^2$ |
| **Ward:** | Llandrillo-yn-Rhos |
| **Cyngor Cymuned:** | Llandrillo-yn-Rhos |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| **Cyfanswm y plotiau:** | 85 |
| **Nifer y plotiau gwag:** | 13 (dan gynnig ar hyn o bryd) |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | 12 |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | 23 |

## Tŷ Newydd, yr Hen Briffordd, Bae Colwyn


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 5,355m$^2$ |
| **Ward:** | Rhiw |
| **Cyngor Cymuned:** | Bae Colwyn |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | 20 |
| **Nifer y plotiau gwag:** | 5 |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | 0 |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | 7 |

## Clwb y Lleng Prydeinig, Bae Colwyn


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 1,090m$^2$ |
| **Ward:** | Rhiw |
| **Cyngor Cymuned:** | Bae Colwyn |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | Preifat |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | Anhysbys |
| **Nifer y plotiau gwag:** | Anhysbys |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | Anhysbys |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | Anhysbys |

## Wellington Road, Hen Golwyn


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 255m$^2$ |
| **Ward:** | Colwyn |
| **Cyngor Cymuned:** | Hen Golwyn |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | 4 |
| **Nifer y plotiau gwag:** | 0 |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | 0 |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | 20 |

## Ffordd y Graig, Hen Golwyn


Ffynhonnell:  Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 1,370m$^2$ |
| **Ward:** | Colwyn |
| **Cyngor Cymuned:** | Hen Golwyn |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | 13 |
| **Nifer y plotiau gwag:** | 3 (dan gynnig ar hyn o bryd) |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | 2 |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | 8 |

## Bodelwyddan Avenue, Hen Golwyn


Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 955m$^2$ |
| **Ward:** | Colwyn |
| **Cyngor Cymuned:** | Hen Golwyn |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | Preifat |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | Anhysbys |
| **Nifer y plotiau gwag:** | Anhysbys |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | Anhysbys |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | Anhysbys |

## Towyn Way West

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy




| | |
|---|---|
| **Ardal:** | 1,765m$^2$ |
| **Ward:** | Towyn |
| **Cyngor Cymuned:** | Towyn a Bae Cinmel |
| **Gweithredol:** | Ydy |
| **Perchnogaeth:** | CBSC |
| | |
| **Cyfanswm y plotiau:** | 19 |
| **Nifer y plotiau gwag:** | 5 (dan gynnig ar hyn o bryd) |
| **Nifer y plotiau hygyrch:** | 2 |
| | |
| **Nifer ar y rhestr aros:** | 3 |